| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **17 TACHWEDD 2011** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. CEFNDIR

Mae mabwysiadu Côd Ymarfer Rheolaeth Trysorlys 2009 CIPFA wedi gosod y sylfaen i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd, sy'n cynnwys yr angen i benderfynu ar strategaeth ariannol ar y gweithgarwch ariannu a buddsoddi tebygol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Mae'r Côd hefyd yn argymell y dylid hysbysu aelodau ynghylch gweithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn felly'n sicrhau bod yr awdurdod hwn yn arddel Arfer Gorau yn unol ag argymhellion Côd Ymarfer CIPFA.

Diffinnir Rheolaeth Trysorlys fel: "*The management of the local authority's investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks.*"

## 2. CEFNDIR ECONOMAIDD

Bu i ragolygon twf byd-eang ddirywio'n sylweddol yn ystod y chwe mis hyd at fis Medi, gan newid o ragweld ehangiad bychan i fod dan fygythiad o gael dirwasgiad dwbl. Yn Chwarter 1 2011, roedd y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) yn y DU yn 0.5%, ond nid oedd ond 0.2% erbyn Chwarter 2.

Arhosodd chwyddiant yn eithriadol o uchel. Roedd chwyddiant prisiau defnyddwyr blynyddol (CPI) yn 4.5% ym mis Awst. Roedd y CPI wedi aros uwchlaw terfyn uchaf y Pwyllgor Polisi Ariannol, sef 3%, am ugain mis yn olynol ac roedd angen i Lywodraethwr Banc Lloegr ysgrifennu llythyr agored i'r Canghellor am y seithfed tro. Credai'r Banc fod y lefel uwch o chwyddiant yn adlewyrchu effaith dros dro nifer o ffactorau: cynnydd yn y gyfradd TAW i 20%, cynnydd yn y gorffennol mewn prisiau ynni byd-eang a phrisiau mewnforio.

Arhosodd y farchnad lafur yn wan. Arweiniodd cyfuniad o chwyddiant uchel oedd yn uwch na'r twf enillion cyfartalog o 2.9%, prinder credyd a phrisiau tai disymud, at lai o incwm gwario gan roi gwasgfa ar allu aelwydydd i wario, gan effeithio'n andwyol ar hyder y defnyddiwr.

Y rhagolygon twf gwael oedd y tu ôl i bolisïau’r bancwyr canolog, yn hytrach na'r duedd i chwyddiant gynyddu. Bu i Adroddiad Chwyddiant Mis Awst Banc Lloegr israddio'r rhagolygon twf ymhellach wrth gydnabod y gallai cynnydd ym mhrisiau ynni wthio'r CPI i 5% cyn i chwyddiant ddisgyn yn ôl i'w darged o 2% yn ystod y tymor canolig. Bu strategaeth y DU o gyfuno polisïau ariannol llac (roedd y Gyfradd Banc wedi aros ar 0.5% am ddwy flynedd a hanner a rhyddhau arian i'r economi drwy *Quantitative Easing*, wedi aros yn £200bn) gyda pholisïau ariannol caeth gefnogi'r gwaith o ail gydbwyso'r economi ac ennyn cefnogaeth y farchnad.

Arweiniodd diffyg mewn llywodraethu gwleidyddol a mesurau i ymdrin â baich y dyledion uchel (sydd wedi’i ohirio tan ar ôl etholiad arlywyddol 2012), yn y pendraw at benderfyniad Standard and Poor’s i israddio sofren UDA o AAA i AA+. Oherwydd sefyllfa economaidd ac ariannol wan y wlad a chyfradd ddiweithdra o 9.1%, nid oedd gan y Gronfa Ffederal fawr o ddewis ond ymrwymo i gyfraddau llog eithriadol o isel hyd nes canol 2013.

Gwaethygu wnaeth argyfwng dyledion sofren Ewrop. Sicrhawyd mwy o amser i Ardal yr Ewro gyda’r cytundeb ym mis Gorffennaf i ymdrin â phroblemau ariannol Groeg ac ehangu mandad yr *European Financial Stability Facility* (EFSF) wrth i bwysau’r farchnad gynyddu ar yr Eidal a Sbaen, ond nid oedd hyn yn ddigon i ymdrin â'r broblem o fantolenni sofren wedi’u gorlwytho.

Rhyddhawyd canlyniadau ail gyfres yr Awdurdod Bancio Ewropeaidd (EBA) o brofion straen ym mis Gorffennaf. Roedd wyth banc (dau o wlad Groeg, un o Awstria a phum banc gwladol bychan o Sbaen) allan o 91 wedi methu’r profion. Cyrhaeddodd pob banc o’r DU ac o du allan i’r DU oedd ar restr fenthyca’r Cyngor a brofwyd gan yr EBA y gyfradd *'stressed' Core Tier 1* o 5%, ni farnwyd yr un ohonynt fel bod ‘bron â methu' (h.y. cyfradd o rhwng 5% a 6%).

Arweiniodd yr ansicrwydd economaidd i ddadansoddwyr ohirio’r tebygolrwydd o weld cynnydd yng Nghyfradd Banc y DU hyd nes canol 2012. Ystyriwyd bod giltiau’n ddiogel a manteisiwyd ar helbul y farchnad. Disgynnodd enillion giltiau i’r lefelau isaf mewn pum mlynedd. Disgynnodd enillion giltiau dros gyfnod o bum mlynedd i 1.25%, enillion deng mlynedd i 2.2% ac enillion 20 mlynedd i 3.05%. Disgynnodd graddau benthyca’r PWLB yn gymesur â hynny.

## 3. RHEOLI DYLEDION

| | Balans ar 01/04/2011 £’000 | Dyledion Aeddfed £’000 | Dyledion a ad-dalwyd £’000 | Benthyciadau Newydd £’000 | Balans ar 30/09/2011 | Cynnydd/ Lleihad mewn Benthyciad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM BENTHYCIADAU** | 118,652 | 4,418 | 181 | - | 114,053 | -4,599 |

I’r Cyngor mae’r defnydd o adnoddau mewnol yn lle benthyca wedi parhau i fod y modd mwyaf effeithiol o ariannu £20m o wariant cyfalaf yn 2011/12. Mae hyn wedi gostwng y risg cyffredinol i’r trysorlys drwy leihau dyledion allanol a buddsoddiadau dros dro. Fodd bynnag, ni fydd modd cynnal y sefyllfa hon yn ystod y tymor canolig ac mae'r Cyngor o'r farn y bydd angen benthyca £7.5m er dibenion cyfalaf erbyn 2012/13.

Ni fu unrhyw weithgareddau aildrefnu dyledion yn ystod y cyfnod hwn.

## 4. GWEITHGARWCH BUDDSODDI

Mae’r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy’n gymesur â’r egwyddorion hyn.

**Buddsoddiadau**

| | **Balans ar 01/04/2011 £’000** | **Buddsoddiadau a wnaed £’000** | **Buddsoddiadau a ad-dalwyd £’000** | **Balans ar 30/09/11 £’000** | **Cynnydd/ Lleihad mewn Buddsoddiadau £’000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Byrdymor mewn Banciau a Chymdeithasau Adeiladu | 58,115 | 151,375 | 165,705 | 43,785 | -14,330 |
| Buddsoddiadau Hirdymor mewn Banciau a Chymdeithasau Adeiladu | - | 5,000 | - | 5,000 | 5,000 |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian | 5,000 | 62,000 | 52,000 | 15,000 | 10,000 |
| Buddsoddiadau mewn Awdurdodau Lleol Eraill | 5,000 | 5,000 | - | 10,000 | 5,000 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **68,115** | **223,375** | **217,705** | **73,785** | **5,670** |

**Mae diogelwch cyfalaf yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i’r Cyngor.** Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti’r Cyngor sydd wedi’i nodi yn Natganiad Strategol Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2011/12. Gellir buddsoddi o’r newydd gyda’r sefydliadau a ganlyn:

- Swyddfa Rheoli Dyledion;
- Awdurdodau Lleol Eraill;
- Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA sydd gan werth net sefydlog i asedau;
- Ernesau gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu’r DU sydd o bwysigrwydd systematig i system fancio’r DU ac ernesau gyda banciau penodol nad ydynt yn y DU (Awstralia, Canada, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sweden, Y Swistir ac UDA);
- Bondiau wedi’u cyflwyno gan Fanciau Datblygu Amlochrog, megis yr European Investment Bank.
- Cronfeydd wedi’u cyfuno (cynlluniau buddsoddi ar y cyd) sy’n diwallu meini prawf OS 2004 Rhif 534 a diwygiadau dilynol.

Caiff ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro wrth gyfeirio at: Statws Credyd (lleiafswm y Cyngor yw statws o A+ (neu gyfwerth) ar gyfer gwrthbartïon hirdymor ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S and P a Moody’s); amnewid diffyg credyd (credit default swaps); GDP y wlad y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi; dyled net y wlad fel canran o'i GDP; mecanweithiau i gefnogi’r sofren / cefnogaeth posib gan sefydliad rhiant gydag adnoddau digonol; ynghyd â phris y cyfranddaliadau.

**Risg Credyd**
Mae ansawdd credyd y gwrthbartïon wedi cryfhau'n raddol/wedi'i gynnal yr un fath yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, fel y gwelir yn y Dadansoddiad Sgôr Credyd sy'n cael ei grynhoi isod:

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd |
|---|---|---|---|---|
| **31/03/2011** | 3.53 | AA- | 2.70 | AA |
| **30/06/2011** | 3.51 | AA- | 2.70 | AA |
| **30/09/2011** | 3.07 | AA | 2.50 | AA+ |

*Sgorio:*
*- Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes.*
*- Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.*
*-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1*
*- D = ansawdd credyd isaf = 15*
*Y nod = A+ neu statws credyd uwch, gyda sgôr o 5 neu'n is, i adlewyrchu'r dull buddsoddi presennol gyda'r prif ffocws ar ddiogelwch.*

**Diweddariad Gwrthbartïon**

Roedd diffyg unrhyw gynnydd gwirioneddol wrth geisio datrys argyfwng dyledion y sofren yn Ewrop wedi dechrau effeithio ar genhedloedd cryfaf Ardal yr Ewro a'u systemau bancio. Aeth ansefydlogrwydd y farchnad i fyny'n sydyn ym mis Awst, a gostyngodd prisiau cyfranddaliadau'r banciau'n sydyn. Ar ôl adolygu'r holl ddangosyddion credyd, credai'r Cyngor, ar ôl derbyn cyngor gan Arlingclose, nad oedd unrhyw broblemau hydaledd gyda'r banciau ar y rhestr fenthyca a argymhellwyd. Eto i gyd roedd prisiau'r cyfranddaliadau'n newid yn rhy sydyn i'w hanwybyddu ac roedd angen ymateb pwyllog i'r tensiynau a'r negyddiaeth yn y marchnadoedd.

Ymatebodd y Cyngor i'r pwysau cynyddol drwy dorri ar yr aeddfediadau ar gyfer buddsoddiadau newydd yn unol â chyngor ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor. Mae'r cyfyngiadau ar gyfer banciau'r DU, Nationwide BS a Banciau Awstralia, Canada ac UDA bellach wedi'u cwtogi i 6 mis ar sail dros dro (Mae Santander UK plc wedi'i gyfyngu i 3 mis). Mae'r cyfyngiadau i fanciau Ewropeaidd wedi'u cwtogi i 1 mis ar sail dros dro. Mae sefydliadau Ffrengig wedi'u gwahardd ar gyfer buddsoddiadau newydd mewn ymateb i bryderon ynghylch ariannu ac amlygiad eu sofren i genhedloedd Ewropeaidd ymylol.

Ar 28 Medi, gwaharddwyd Clydesdale Bank o'r rhestr fenthyca wedi i Moody's israddio'r banc i A2, sy'n is na meini prawf gofynnol y Cyngor am A+ neu gyfwerth.

Yn ystod y chwarter cyntaf rhoddodd Moody's statysau nifer o sefydliadau'r DU i gael eu hadolygu ar gyfer eu hisraddio o bosib. Mae'n debygol y bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau rhyw dro ym mis Hydref a gall arwain at israddio rhai o'r gwrthbartïon sydd ar restr fenthyca'r Cyngor. Bydd oblygiadau unrhyw israddio yn cael eu trafod gyda Arlingclose a gall arwain at adolygu meini prawf credyd gofynnol y Cyngor, yn unol â'r hyn a osodwyd yn ei Ddatganiad Strategol Rheolaeth Trysorlys.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fuddsoddiadau gyda banciau nad ydynt o'r DU ar hyn o bryd.

Atodir rhestr o wrthbartïon y Cyngor fel ag yr oedd ar 30 Medi 2011 er gwybodaeth yn Atodiad A.

**Cyllidebu Incwm ac Alldro**
Amcangyfrifir mai incwm buddsoddiadau y mae'r Cyngor wedi'i gyllidebu ar gyfer y flwyddyn yw £0.7m. Roedd y balansau arian cyfartalog sy'n cynrychioli cronfeydd wrth gefn y Cyngor, ei falansau gweithio ac arian gwarged y Gronfa Bensiwn yn £81.9m yn ystod y cyfnod.

Mae cyfradd sylfaenol y DU wedi parhau ar 0.5% ers mis Mawrth 2009. Nid oes disgwyl iddo gynyddu hyd nes canol 2012. Mae cyfraddau arian marchnad tymor byr wedi parhau ar lefelau isel iawn. Gwnaed ernesau newydd ar raddfa gyfartalog o 1.25%. Mae'r Cyngor yn rhagweld alldro buddsoddiad o £810,000 ar gyfer y flwyddyn yn ei chyfanrwydd.

**Diweddariad ar Fuddsoddiad Banciau Gwlad yr Iâ**
Yn dilyn yr arweiniad diweddaraf a gyhoeddwyd gan CIPFA ym mis Medi 2011 (Bwletin 82, Diweddariad 5 LAAP), gwyddwn yr hyn a ganlyn.

- ***Heritable*** - Disgwylir y bydd 86p-90p/£ yn cael ei adfer i gyd. Ar amser cyhoeddi Bwletin 82, Diweddariad 5 LAAP, roedd taliadau interim wedi'u gwneud oedd werth 60.42% o'r hawliad. Derbyniwyd 6.25% ym mis Ebrill 2011 a 4.05% ym mis Gorffennaf 2011. Disgwylir 4.50% arall ym mis Hydref 2011.

## 5. CYDYMFFURFIO Â DANGOSYDDION DARBODUS

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2011/12, a osodwyd ym mis Mawrth 2011 fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor - gellir cael mynediad ato drwy'r linc hwn:
**http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2011/Cyngor%20Llawn/2011-03-01/cymraeg/09_04_(B)%20Rheolaeth%20Trysorlys.pdf**.
Ceir y manylion yn Atodiad B.

## 6. RHAGOLYGON CHWARTER 3 – CHWARTER 4

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad gweithgarwch hwn ym mis Tachwedd 2011, gan ystyried y rhagolygon twf ansicr credir na fyddai Banc Lloegr yn cynyddu ei gyfraddau oni bai fod tystiolaeth gref yn bodoli i ddangos fod yr economi wedi goroesi'r cyfnerthiad ariannol. Felly, mae'n debyg y bydd cyfraddau llog swyddogol yn parhau'n isel am gyfnod estynedig, hyd at ddiwedd 2012 o leiaf.

| | Sep-11 | Dec-11 | Mar-12 | Jun-12 | Sep-12 | Dec-12 | Mar-13 | Jun-13 | Sep-13 | Dec-13 | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.25 | 1.50 | 1.75 | 2.00 | 2.25 |
| Downside risk | | | | | | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |

## 7. CRYNODEB

Mewn cydymffurfiaeth â gofynion Côd Ymarfer CIPFA, mae'r adroddiad hwn yn rhoi adroddiad crynodol o'r gweithgarwch rheolaeth trysorlys yn ystod hanner cyntaf 2011/12 i aelodau. Fel y dangosir yn yr adroddiad, ni thorrwyd unrhyw un o'r Dangosyddion Darbodus a mabwysiadwyd dull darbodus mewn perthynas â gweithgarwch buddsoddi, gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd yn hytrach nag enillion.

## RHESTR O WRTHBARTÏON CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD (diweddarwyd 30/09/11)

### Adneuon Cyfnod Penodol / Cyfrifon Ar Alw

| Gwlad | Gwrthbarti | Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m | Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim cyfyngiad | Dim cyfyngiad |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £10m | Blwyddyn |
| Y DU | Santander UK Plc (Banco Santander Group) | £20m | 3 MIS ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Bank of Scotland (Lloyds Banking Group) | £20m | Cadw at 6 mis ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Lloyds TSB (Lloyds Banking Group) | £20m | Cadw at 6 mis ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Barclays Bank Plc | £20m | Cadw at 6 mis ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Clydesdale (National Australia Bank Group) **GWAHARDDWYD 28/09/11** | £20m | 2 flynedd |
| Y DU | HSBC Bank Plc | £20m | Cadw at 6 mis ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Nationwide Building Society | £20m | Cadw at 6 mis ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Nat West (RBS Group) | £20m | Cadw at 6 mis ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Royal Bank of Scotland (RBS Group) | £20m | Cadw at 6 mis ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Standard Chartered Bank | £20m | Cadw at 6 mis ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group) | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Canada | Bank of Montreal | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Canada | Royal Bank of Canada | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £5m | Cadw at 6 mis ~~1 flynedd~~ |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £5m | Cadw at fis ~~1 flynedd~~ |
| Ffrainc | BNP Paribas *GWAHARDDWYD 13/09/11 * | £5m | Blwyddyn |
| Ffrainc | Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group) *GWAHARDDWYD 13/09/11* | £5m | Blwyddyn |
| Ffrainc | Credit Agricole SA *GWAHARDDWYD 13/09/11* | £5m | Blwyddyn |
| Ffrainc | Societe Generale *GWAHARDDWYD 11/08/11* | ~~£5m~~ | ~~Blwyddyn~~ |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | £5m | Cadw at fis ~~blwyddyn~~ |
| Yr Iseldiroedd | ING Bank NV | £5m | Cadw at fis ~~blwyddyn~~ |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £5m | Cadw at fis ~~blwyddyn~~ |
| Sweden | Svenska Handelsbanken | £5m | Cadw at fis ~~blwyddyn~~ |
| Y Swistir | Credit Suisse | £5m | Cadw at fis ~~blwyddyn~~ |
| UDA | JP Morgan | £5m | Cadw at 6 mis ~~blwyddyn~~ |

1) **Mae terfyn o £20m ar fanciau sydd yn yr un grŵp bancio.**
2) **Bydd buddsoddiadau mewn banciau y tu allan i'r DU yn cael eu cyfyngu i derfyn uchaf o 40% o'r portffolio, gyda chyfyngiad gwlad o £10m hyd at uchafswm o 30% o'r portffolio i bob gwlad.**
3) **Meini Prawf Credyd Gofynnol - statws hirdymor o A+ i wrthbartïon; AA i wledydd**

| Offeryn | Gwlad | Gwrthbartï | Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m | Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|---|
| Giltiau* | Y DU | DMO | Dim cyfyngiad | 6 mlynedd |
| Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA | Y DU / Iwerddon/ Lwcsembwrg | Cronfeydd Marchnad Arian | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| Cronfeydd Marchnad Arian eraill a Chynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | Y DU | Cynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| Biliau'r Trysorlys* | Y DU | DMO | Dim cyfyngiad | Blwyddyn |
| Biliau'r Awdurdod Lleol* | Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £10m | Blwyddyn |
| Bondiau a ddyrodir gan fanciau datblygu amlochrog* | Ewrop / America | *EIB, Council of Europe, Inter American Investment Bank* | £5m | 6 mlynedd |
| Bondiau a ddyrodir gan sefydliadau ariannol sydd wedi'u gwarantu gan lywodraeth y DU* | Y DU | Sefydliadau ariannol a warantir | £5m | 6 mlynedd |
| Bondiau sy'n defnyddio Sterling gan lywodraethau sofren y tu allan i'r DU* | Tu allan i'r DU | Llywodraethau Sofren tu allan i'r DU | £5m | 3 blynedd |
| Benthyciadau Busnes i gwmnïau lleol** | Y DU | Fel y cytunir gan y Cynllun Cronfa Benthyciadau Lleol | £1m | 10 mlynedd |

*Byddwn yn buddsoddi yn yr offerynnau hyn yn unol â chyngor ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

** Bydd parhau â'r benthyciadau hyn yn cael ei gymeradwyo gan y broses a fanylir arni yn Atodiad Ch, Paragraff 6. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor nac o'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

## Gofyn Cyllido Cyfalaf

Dangosir amcangyfrifon o uchafswm gofyn benthyca allanol cronnus y Cyngor ar gyfer 2011/12 hyd at 2013/14 yn y tabl isod:

| | 31/03/2011 Gwir £'000 | 31/03/2012 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2013 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2014 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 150,473 | 164,738 | 167,869 | 170,277 |
| **Llai:** Proffil Benthyca Presennol | (118,702) | (113,827) | (112,551) | (111,421) |
| **Llai:** Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca Allanol Cronnus** | **31,771** | **50,911** | **55,318** | **58,856** |

## Balansau a Chronfeydd

Mae amcangyfrifon o lefelau Balansau a Chronfeydd y Cyngor ar gyfer 2011/12 hyd at 2013/14 fel a ganlyn:

| | 31/03/2011 Gwir £'000 | 31/03/2012 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2013 Amcangyfrif £'000 | 31/03/2014 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balansau a Chronfeydd** | **70,394** | **52,164** | **47,804** | **43,383** |

## Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus

### (a) Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor osod Terfyn Benthyca Awdurdodedig, yn annibynnol o'i statws dyledus. Mae hwn yn derfyn statudol na ddylid ei dorri. Gosodwyd Terfyn Benthyca Awdurdodedig y Cyngor yn £190m ar gyfer 2011/12.

Mae'r Ffin Weithredol wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig ond yn adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf heb gynnwys yr ychwaneg o fewn y Terfyn Awdurdodedig. Gosodwyd y Ffin Weithredol ar gyfer 2011/12 yn £170m.

Mae Pennaeth yr Adran Gyllid yn cadarnhau na thorrwyd y Terfyn Awdurdodedig na'r Ffin Weithredol yn ystod y flwyddyn. Cyrhaeddwyd brig o £118m o ran benthyca.

### (b) Terfynau Uchaf o ran Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol

Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu'r Cyngor i reoli i ba raddau y caiff ei efffeithio gan newidiadau yng nghyfraddau llog.

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer cyfradd gyfnewidiol yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu effaith i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar ein portffolio o fuddsoddiadau.

| | **Terfynau ar gyfer 2011/12 %** |
|---|---|
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog** | 100% |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | Ydy |
| **Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol** | 50% |
| Cydymffurfio â'r Terfynau: | Ydy |

## (c) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog

Mae'r dangosydd yn cyfyngu crynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog.

| **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog** | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** | **Gwir Fenthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 30/09/11** | **% y Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 30/09/11** | **Cydymffurfio â'r Terfynau a Osodwyd?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% | 860,416.05 | 0.76% | Ydi |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 17,283,622.83 | 15.15% | Ydi |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 3,377,312.29 | 2.96% | Ydi |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 5,609,816.08 | 4.92% | Ydi |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% | 86,922,304.06 | 76.21% | Ydi |

## (d) Cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau hwy na 364 diwrnod

- Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu'r Cyngor i reoli'r risg sydd ynghlwm â buddsoddiadau sy'n hwy na 364 diwrnod.
- Gosodwyd y terfyn ar gyfer 2011/12 ar 50% o'r portffolio.
- Polisi'r Cyngor ers dechrau'r wasgfa ariannol yn 2007 yw cadw aeddfeddiadau buddsoddi am hyd at uchafswm o 24 mis. Gwnaed un buddsoddiad o £5m am gyfnod hwy na 364 diwrnod yn ystod y cyfnod hwn.